Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 1367 (Cy. 224) (C. 79)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Adeiladu 1984 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf sydd wedi ei wneud o dan Ddeddf Adeiladu 1984 (p. 55) ("y Ddeddf") o ran Cymru yn unig. Fodd bynnag, mae dau orchymyn cychwyn cyn datganoli diogelwch adeiladau i Gymru wedi dwyn darpariaethau yn y Ddeddf i rym o ran Cymru a Lloegr. Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym adran 33 o'r Ddeddf o ran Cymru. Mae adran 33 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phrofi a samplu at ddiben canfod a dorrwyd unrhyw ddarpariaeth mewn rheoliadau adeiladu neu a ellid torri unrhyw ddarpariaeth mewn rheoliadau adeiladu.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym o ran Cymru a Lloegr drwy orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 50(2) a (3) | 11 Tachwedd 1985 | O.S. 1985/1602 (C. 36) |
| Paragraff 9 o Atodlen 1 | 7 Awst 1998 | O.S. 1998/1836 (C. 37) |
| Adran 33 (o ran Lloegr yn unig) | 1 Hydref 2023 | O.S. 2023/993 (C. 59) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 1367 (Cy. 224) (C. 79)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Adeiladu 1984 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2025

*Gwnaed* *12 Rhagfyr 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 120(1) a 134(1)(b) o Ddeddf Adeiladu 1984(**1**).

### Enwi

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Adeiladu 1984 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2025.

### Y ddarpariaeth sy'n dod i rym ar XXXX

**2.** Daw adran 33 o Ddeddf Adeiladu 1984(**2**) (profion cydymffurfio â rheoliadau adeiladu) i rym ar XXXX.

*Rebecca Evans*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
12 Rhagfyr 2025

(**1**) 1984 p. 55. Mae adran 120 wedi ei diwygio gan baragraff 76 ac mae adran 134 wedi ei diwygio gan baragraff 82 o Atodlen 5 i Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 (p. 30) ("Deddf 2022"). Yn rhinwedd adran 134(1A) o Ddeddf Adeiladu 1984 mae'r cyfeiriad at yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 134(1) i'w ddarllen fel cyfeiriad at Weinidogion Cymru.

(**2**) Mae adran 33 wedi ei diwygio gan baragraff 30 o Atodlen 5 i Ddeddf 2022.